OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 497 (Cy. 114)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) 2006 (O.S. 2006/2697) o ran Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Erthygl 13d o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau gwarchod yn erbyn cyflwyno i'r Gymuned organeddau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion ac yn erbyn eu lledaenu o fewn y Gymuned (OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1). Mae Erthygl 13d yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gasglu ffioedd am wiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion a gynhelir ar lwythi penodol o bren, cynhyrchion pren a rhisgl wedi ei wahanu sy'n deillio o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ("llwythi a reolir").

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffioedd a ganlyn gael eu talu i Weinidogion Cymru—

(a) y ffioedd a bennir yn Atodlen 1 am arolygiadau mewn cysylltiad ag awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion o dan erthygl 28 o Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 (O.S. 2005/2517) ("y Prif Orchymyn");

(b) y ffioedd a bennir yn Atodlen 2 mewn cysylltiad â thrwyddedau y mae erthygl 38 neu 39 o'r Prif Orchymyn yn gymwys iddynt;

(c) y ffioedd a bennir yn Atodlen 3 a rheoliad 3(5) am wiriadau iechyd planhigion ar lwythi a reolir;

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2019 No. 497 (W. 114)

# PLANT HEALTH, WALES

## The Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations revoke and replace the Plant Health (Fees) (Forestry) Regulations 2006 (S.I. 2006/2697) in relation to Wales.

These Regulations implement Article 13d of Council Directive 2000/29/EC on protective measures against the introduction into the Community of organisms harmful to plants or plant products and against their spread within the Community (OJ No L 169, 10.7.2000, p.1). Article 13d requires member States to collect fees for documentary, identity and plant health checks carried out on certain consignments of wood, wood products and isolated bark originating in countries outside the European Union ("controlled consignments").

Regulation 3 requires the following fees to be paid to the Welsh Ministers—

(a) the fees specified in Schedule 1 for inspections in connection with an authority to issue plant passports under article 28 of the Plant Health (Forestry) Order 2005 (S.I. 2005/2517) ("the Principal Order");

(b) the fees specified in Schedule 2 in connection with licences to which article 38 or 39 of the Principal Order applies;

(c) the fees specified in Schedule 3 and regulation 3(5) for plant health checks on controlled consignments;

(d) y ffioedd a bennir yn Atodlen 4 am wiriadau dogfennol a gwiriadau adnabod ar lwythi a reolir;

(e) y ffioedd a bennir yn Atodlen 5 am gynnal neu am fonitro gwaith adfer gan arolygydd o dan y Prif Orchymyn mewn cysylltiad â llwythi a reolir.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cysoni'r ffioedd â'r rhai ar gyfer gweddill Prydain Fawr. Mae'r newidiadau fel a ganlyn—

(a) mae'r ffioedd am wiriadau iechyd planhigion yn codi o £26 i £31.20 am bob llwyth (ac o £0.20 i £0.25 am bob $m^3$ ychwanegol sy'n fwy na $100m^3$ mewn perthynas â llwyth o bren ac eithrio pren ar ffurf naddion, sglodion neu flawd llif);

(b) mae'r ffioedd cyfradd is mewn perthynas â gwiriadau iechyd planhigion ar lwythi o *Acer saccharum* o Ganada ac Unol Daleithiau America wedi eu diddymu. O dan y weithdrefn y darperir ar ei chyfer yn Erthyglau 13a(2) a 18(2) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC, nid yw'r llwythi hyn bellach yn destun gwiriadau iechyd planhigion lefel is ac felly nid ydynt yn gymwys bellach ar gyfer ffioedd cyfradd is;

(c) mae'r ffioedd am wiriadau dogfennol yn codi o £6 i £7.20 am bob llwyth ac am wiriadau adnabod yn codi o £6 i £7.20 ac, ar gyfer swmplwythi o $100m^3$ neu fwy, o £12 i £14.40, am bob llwyth.

Fel arall, mae'r ffioedd yn aros yr un fath ag yn Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) 2006.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Adran Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(d) the fees specified in Schedule 4 for documentary checks and identity checks on controlled consignments;

(e) the fees specified in Schedule 5 for the carrying out or monitoring of remedial work by an inspector under the Principal Order in connection with controlled consignments.

These Regulations bring the fees in line with the rest of Great Britain. The changes are as follows—

(a) the fees for plant health checks increase from £26 to £31.20 per consignment (and from £0.20 to £0.25 for each additional $m^3$ in excess of $100m^3$ in relation to a consignment of wood other than wood in the form of shavings, chips or sawdust);

(b) the reduced rate fees in relation to plant health checks on consignments of *Acer saccharum* from Canada and the United States of America are removed. Under the procedure provided for in Articles 13a(2) and 18(2) of Council Directive 2000/29/EC, these consignments are no longer subject to reduced levels of plant health checks and are therefore no longer eligible for reduced rate fees;

(c) the fees for documentary checks increase from £6 to £7.20 per consignment and for identity checks from £6 to £7.20 and, for bulk loads of $100m^3$ or more, from £12 to £14.40, per consignment.

Otherwise the fees remain the same as in the Plant Health (Fees) (Forestry) Regulations 2006.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Economy, Skills and Natural Resources Department of the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 497 (Cy. 114)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019

*Gwnaed* *5 Mawrth 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *7 Mawrth 2019*

*Yn dod i rym* *28 Mawrth 2019*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd ac yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan yr adran honno.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Mawrth 2019.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdodiad pasbort planhigion" ("*plant passport authority*") yw awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion a roddir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 28 o'r Gorchymyn;

(**1**) O.S. 2010/2690. O dan adran 1(2) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 (p. 8), fel y'i diwygiwyd gan erthygl 4(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755), a pharagraff 43 o Atodlen 2 iddo, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys ar gyfer Cymru o ran gwarchod coed fforestydd a phren rhag ymosodiadau gan blâu.

(**2**) 1972 p. 68: diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan Ran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2019 No. 497 (W. 114)

# PLANT HEALTH, WALES

## The Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019

*Made* *5 March 2019*

*Laid before the National Assembly for Wales* *7 March 2019*

*Coming into force* *28 March 2019*

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Union and make these Regulations in exercise of the powers conferred on them by that section.

**Title, application and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 28 March 2019.

**Interpretation**

**2.**—(1) In these Regulations—

"approved place of inspection" ("*man arolygu a gymeradwywyd*") has the meaning given in article 3 of the Order;

(**1**) S.I. 2010/2690. Under section 1(2) of the Plant Health Act 1967 (c.8), as amended by article 4(1) of, and paragraph 43 of Schedule 2 to, the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 (S.I. 2013/755), the Welsh Ministers are the competent authority for Wales as regards the protection of forest trees and timber from attack by pests.

(**2**) 1972 c.68: section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51) and Part 1 of the European Union (Amendment) Act 2008 (c.7).

ystyr "y Gorchymyn" ("*the Order*") yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005(**1**);

ystyr "gwaith adfer" ("*remedial work*") yw unrhyw gamau a gymerir gan berson at ddibenion cydymffurfio â hysbysiad adfer, neu gan arolygydd o dan erthygl 32(1) o'r Gorchymyn;

mae i "gwiriad adnabod" yr ystyr a roddir i "identity check" gan Erthygl 13a(1)(b)(ii) o'r Gyfarwyddeb;

mae i "gwiriad dogfennol" yr ystyr a roddir i "documentary check" gan Erthygl 13a(1)(b)(i) o'r Gyfarwyddeb;

mae i "gwiriad iechyd planhigion" yr ystyr a roddir i "plant health check" gan Erthygl 13a(1)(b)(iii) o'r Gyfarwyddeb;

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau gwarchod yn erbyn cyflwyno i'r Gymuned organeddau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion ac yn erbyn eu lledaenu o fewn y Gymuned(**2**);

ystyr "hysbysiad adfer" ("*remedial notice*") yw hysbysiad a roddir o dan erthygl 31(1) neu (4) neu 33(3) o'r Gorchymyn;

ystyr "llwyth a reolir" ("*controlled consignment*") yw llwyth o fewn yr ystyr a roddir i "consignment" yn Erthygl 2(1)(p) o'r Gyfarwyddeb, neu lwyth y mae gan arolygydd amheuaeth resymol ei fod yn lwyth o'r fath, o unrhyw un neu ragor o'r deunyddiau perthnasol a ganlyn y mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn gymwys iddynt—

(a) rhisgl wedi ei wahanu o fath a restrir yn Atodlen 5, Rhan A, paragraff 3 neu Ran B, paragraff 3 i'r Gorchymyn; neu

(b) pren o fath a restrir yn Atodlen 5, Rhan A, paragraff 4 neu Ran B, paragraff 1 i'r Gorchymyn, ac eithrio deunydd pecynnu pren a ddefnyddir mewn gwirionedd wrth gludo gwrthrychau o bob math;

mae i "man arolygu a gymeradwywyd" yr ystyr a roddir i "approved place of inspection" yn erthygl 3 o'r Gorchymyn; ac

ystyr "trwydded" ("*licence*") yw trwydded i gynnal unrhyw weithgaredd y mae erthygl 38 neu 39 o'r Gorchymyn yn gymwys iddo.

(**1**) O.S. 2005/2517; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2009/594, 2012/2707, 2013/755, 2013/2691 a 2014/2420 fel y'u cymhwysir yng Nghymru gan 2015/1723.

(**2**) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/1920 (OJ Rhif L 271, 20.10.2017, t. 34).

"controlled consignment" ("*llwyth a reolir*") means a consignment within the meaning of Article 2(1)(p) of the Directive, or a consignment which an inspector reasonably suspects to be such a consignment, of any of the following relevant material to which Part 2 of the Order applies—

(a) isolated bark of a type listed in Schedule 5, Part A, paragraph 3 or Part B, paragraph 3 to the Order; or

(b) wood of a type listed in Schedule 5, Part A, paragraph 4 or Part B, paragraph 1 to the Order, other than wood packaging material which is actually in use in the transport of objects of all kinds;

"the Directive" ("*y Gyfarwyddeb*") means Council Directive 2000/29/EC on protective measures against the introduction into the Community of organisms harmful to plants or plant products and against their spread within the Community(**1**);

"documentary check" ("*gwiriad dogfennol*") has the meaning given by Article 13a(1)(b)(i) of the Directive;

"identity check" ("*gwiriad adnabod*") has the meaning given by Article 13a(1)(b)(ii) of the Directive;

"licence" ("*trwydded*") means a licence to carry out any activity to which article 38 or 39 of the Order applies;

"the Order" ("*y Gorchymyn*") means the Plant Health (Forestry) Order 2005(**2**);

"plant health check" ("*gwiriad iechyd planhigion*")has the meaning given by Article 13a(1)(b)(iii) of the Directive;

"plant passport authority" ("*awdurdodiad pasbort planhigion*") means an authority to issue plant passports granted by the Welsh Ministers under article 28 of the Order;

"remedial notice" ("*hysbysiad adfer*") means a notice served under article 31(1) or (4) or 33(3) of the Order; and

"remedial work" ("*gwaith adfer*") means any steps taken by a person for the purposes of complying with a remedial notice, or by an inspector under article 32(1) of the Order.

(**1**) OJ No L 169, 10.7.2000, p1, as last amended by Commission Implementing Directive (EU) 2017/1920 (OJ No L 271, 20.10.2017, p.34).

(**2**) S.I. 2005/2517; relevant amending instruments are S.I. 2009/594, 2012/2707, 2013/755, 2013/2691 and 2014/2420 as applied in Wales by 2015/1723.

(2) Mae i eiriau ac ymadroddion nad ydynt wedi eu diffinio yn y Rheoliadau hyn ac y mae'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn ymddangos yn y Gorchymyn yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd gan yr ymadroddion Saesneg cyfatebol yn y Gorchymyn.

(2) Words and expressions which are not defined in these Regulations and which appear in the Order have the same meaning in these Regulations as they have in the Order.

**Ffioedd**

**3.**—(1) Mae ffioedd sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yn daladwy i Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r ffi sy'n daladwy am arolygiad a gweithgareddau cysylltiedig mewn cysylltiad â rhoi, amrywio neu atal dros dro awdurdodiad pasbort planhigion neu er mwyn monitro cydymffurfedd â'r awdurdodiad hwnnw wedi ei phennu yn Atodlen 1.

(3) Mae'r ffi sy'n daladwy mewn cysylltiad â chais am drwydded (gan gynnwys cais i estyn neu amrywio trwydded), am arolygiad a gweithgareddau cysylltiedig mewn cysylltiad â chais am drwydded neu er mwyn monitro cydymffurfedd â thelerau ac amodau trwydded wedi ei phennu yn Atodlen 2.

(4) Rhaid i fewnforiwr llwyth a reolir dalu—

(a) yn achos gwiriad iechyd planhigion mewn cysylltiad â'r llwyth, y ffi a bennir ar gyfer y math perthnasol o lwyth yn eitem 1 neu 2 o'r tabl yn Atodlen 3;

(b) yn achos gwiriad dogfennol mewn cysylltiad â'r llwyth, y ffi a bennir yn eitem 1 o'r tabl yn Atodlen 4;

(c) yn achos gwiriad adnabod mewn cysylltiad â'r llwyth, y ffi a bennir yn eitem 2 o'r tabl yn Atodlen 4.

(5) Pan fo gwiriad iechyd planhigion, ar gais mewnforiwr llwyth a reolir, yn cael ei gynnal ar y llwyth mewn man arolygu a gymeradwywyd, rhaid i'r mewnforiwr dalu'r ffi o £30 ar gyfer pob ymweliad a wneir gan arolygydd wrth gynnal y gwiriad iechyd planhigion yn y man arolygu a gymeradwywyd, yn ychwanegol at y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (4)(a).

(6) Rhaid i'r person y cyflwynir hysbysiad adfer iddo neu y rhoddir hysbysiad iddo o dan erthygl 32(1) o'r Gorchymyn dalu'r ffi a bennir yn Atodlen 5 ar gyfer cynnal neu fonitro gwaith adfer a gweithgareddau cysylltiedig gan arolygydd mewn cysylltiad â llwyth a reolir.

**Fees**

**3.**—(1) Fees payable under this regulation are payable to the Welsh Ministers.

(2) The fee payable for an inspection and associated activities in connection with the granting, variation, or suspension of a plant passport authority or for monitoring compliance with that authority is specified in Schedule 1.

(3) The fee payable in connection with an application for a licence (including an application for an extension or variation of a licence), for an inspection and associated activities in connection with an application for a licence or for monitoring compliance with the terms and conditions of a licence is specified in Schedule 2.

(4) The importer of a controlled consignment must pay—

(a) in the case of a plant health check in respect of the consignment, the fee specified for the relevant type of consignment in item 1 or 2 of the table in Schedule 3;

(b) in the case of a documentary check in respect of the consignment, the fee specified in item 1 of the table in Schedule 4;

(c) in the case of an identity check in respect of the consignment, the fee specified in item 2 of the table in Schedule 4.

(5) Where, at the request of an importer of a controlled consignment, a plant health check is carried out on the consignment at an approved place of inspection, the importer must pay the fee of £30 for each visit made by an inspector in the course of conducting the plant health check at the approved place of inspection, in addition to the fee payable under paragraph (4)(a).

(6) The person on whom a remedial notice is served or who is given notice under article 32(1) of the Order must pay the fee specified in Schedule 5 for the carrying out or the monitoring by an inspector of remedial work and associated activities in connection with a controlled consignment.

**Dirymiadau**

**4.** Mae’r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) 2006(**1**);

(b) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Diwygio) 2008(**2**);

(c) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Diwygio) 2009(**3**);

(d) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Diwygio) 2010(**4**).

**Revocations**

**4.** The following Regulations are revoked—

(a) the Plant Health (Fees) (Forestry) Regulations 2006(**1**);

(b) the Plant Health (Fees) (Forestry) (Amendment) Regulations 2008(**2**);

(c) the Plant Health (Fees) (Forestry) (Amendment) Regulations 2009(**3**);

(d) the Plant Health (Fees) (Forestry) (Amendment) Regulations 2010(**4**).

*Lesley Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
5 Mawrth 2019

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
5 March 2019

---

(**1**) O.S. 2006/2697, fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2008/702, 2009/2956, 2010/2001, 2013/755.
(**2**) O.S. 2008/702.
(**3**) O.S. 2009/2956.
(**4**) O.S. 2010/2001.

(**1**) S.I. 2006/2697, as amended by S.I. 2008/702, 2009/2956, 2010/2001, 2013/755.
(**2**) S.I. 2008/702.
(**3**) S.I. 2009/2956.
(**4**) S.I. 2010/2001.

## ATODLEN 1 Rheoliad 3(2)

## FFIOEDD AM AROLYGIADAU MEWN CYSYLLTIAD AG AWDURDODIAD PASBORT PLANHIGION

| ***Math o arolygiad*** | ***Ffi*** |
|---|---|
| Arolygiad a gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys amser teithio ac amser swyddfa) mewn cysylltiad â rhoi, amrywio neu atal dros dro awdurdodiad pasbort planhigion neu er mwyn monitro cydymffurfedd â'r awdurdodiad hwnnw— | |
| (a) hyd at a chan gynnwys yr awr gyntaf; | £37 |
| (b) wedi hynny, am bob 15 munud ychwanegol neu ran o'r cyfnod hwnnw | £9.25 |

## ATODLEN 2 Rheoliad 3(3)

## FFIOEDD MEWN CYSYLLTIAD Â THRWYDDEDAU

| ***Eitem*** | ***Math o gais neu arolygiad*** | ***Ffi*** |
|---|---|---|
| 1 | Cais am drwydded | £305 |
| 2 | Cais i estyn neu amrywio trwydded gyda newidiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad gwyddonol neu dechnegol | £100 |
| 3 | Cais i estyn trwydded heb unrhyw newidiadau neu i estyn neu amrywio trwydded gyda newidiadau nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad gwyddonol neu dechnegol | £12 |
| 4 | Arolygiad a gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys amser teithio ac amser swyddfa) mewn cysylltiad ag eitem 1, 2 neu 3 neu er mwyn monitro cydymffurfedd â thelerau ac amodau trwydded— | |
| | (a) hyd at a chan gynnwys yr awr gyntaf; | £37 |
| | (b) wedi hynny, am bob 15 munud ychwanegol neu ran o'r cyfnod hwnnw | £9.25 |

## ATODLEN 3 Rheoliad 3(4)(a)

## FFIOEDD AM WIRIADAU IECHYD PLANHIGION

| ***Eitem*** | ***Disgrifiad o'r deunydd perthnasol mewn llwyth sy'n destun gwiriad iechyd planhigion*** | ***Uned*** | ***Ffi*** |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhisgl wedi ei wahanu, naddion coed, sglodion coed neu flawd llif | Am bob llwyth<br>- hyd at 25000kg<br>- am bob 1000kg ychwanegol neu ran ohono | £31.20<br>£0.49<br>Hyd at uchafswm y ffi o £98 y llwyth |
| 2 | Pren (ac eithrio pren ar ffurf rhisgl wedi ei wahanu, naddion coed, sglodion coed neu flawd llif) | Am bob llwyth<br>- hyd at 25000kg<br>- am bob 1000kg ychwanegol neu ran ohono | £31.20<br>£0.25 |

## ATODLEN 4 Rheoliad 3(4)(b) ac (c)

## FFIOEDD AM WIRIADAU DOGFENNOL A GWIRIADAU ADNABOD

| *Eitem* | *Math o wiriad* | *Uned* | *Ffi* |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwiriad dogfennol | Am bob llwyth | £7.20 |
| 2 | Gwiriad adnabod | Am bob llwyth<br>- am bob llwyth o hyd at 30m³ sy'n ffurfio rhan o'r llwyth a gynhwysir mewn un tryc, wagen reilffordd neu gynhwysydd cyffelyb<br>- am bob swmplwyth o lai na 100m³<br>- am bob swmplwyth o 100m³ neu fwy | £7.20<br>£7.20<br>£14.40 |

# ATODLEN 5 Rheoliad 3(6)

## FFIOEDD AM GYNNAL NEU AM FONITRO GWAITH ADFER

| ***Gwaith adfer*** | ***Ffi*** |
|---|---|
| Cynnal neu fonitro gwaith adfer a gweithgareddau cysylltiedig (gan gynnwys amser teithio ac amser swyddfa) gan arolygydd mewn cysylltiad â llwyth a reolir— | |
| (a) hyd at a chan gynnwys yr awr gyntaf; | £37 |
| (b) wedi hynny, am bob 15 munud ychwanegol neu ran o’r cyfnod hwnnw | £9.25 |

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

# SCHEDULE 1 Regulation 3(2)

## FEES FOR INSPECTIONS IN CONNECTION WITH A PLANT PASSPORT AUTHORITY

| *Type of inspection* | *Fee* |
|---|---|
| Inspection and associated activities (including travelling and office time) in connection with the granting, variation or suspension of a plant passport authority or for monitoring compliance with that authority— | |
| (a) up to and including the first hour; | £37 |
| (b) thereafter, for each additional 15 minutes or part thereof | £9.25 |

# SCHEDULE 2 Regulation 3(3)

## FEES IN CONNECTION WITH LICENCES

| *Item* | *Type of application or inspection* | *Fee* |
|---|---|---|
| 1 | Application for a licence | £305 |
| 2 | Application for an extension or variation of a licence with changes requiring scientific or technical assessment | £100 |
| 3 | Application for an extension of a licence with no changes or for an extension or variation of a licence with changes not requiring scientific or technical assessment | £12 |
| 4 | Inspection and associated activities (including travelling and office time) in connection with item 1, 2 or 3 or for monitoring compliance with licence terms and conditions— | |
| | (a) up to and including the first hour; | £37 |
| | (b) thereafter, for each additional 15 minutes or part thereof | £9.25 |

## SCHEDULE 3 Regulation 3(4)(a)

## FEES FOR PLANT HEALTHCHECKS

| ***Item*** | ***Description of relevant material in consignment subject to a plant health check*** | ***Unit*** | ***Fee*** |
|---|---|---|---|
| 1 | Isolated bark, wood shavings, wood chips or sawdust | Per consignment<br><br>- up to 25000kg<br>- for each additional 1000kg or part thereof | <br><br>£31.20<br>£0.49<br><br>Up to a maximum fee of £98 per consignment |
| 2 | Wood (other than wood in the form of isolated bark, wood shavings, wood chips or sawdust) | Per consignment<br><br>- up to 25000kg<br>- for each additional 1000kg or part thereof | <br><br>£31.20<br>£0.25 |

## SCHEDULE 4 Regulation 3(4)(b) and (c)

## FEES FOR DOCUMENTARY CHECKS AND IDENTITY CHECKS

| *Item* | *Type of check* | *Unit* | *Fee* |
|---|---|---|---|
| 1 | Documentary check | Per consignment | £7.20 |
| 2 | Identity check | Per consignment<br><br>- for each load of up to 30m³ forming part of the consignment contained in one truck, railway wagon or comparable container<br><br>- for each bulk load of less than 100m³<br><br>- for each bulk load of 100m³ or more | <br><br>£7.20<br><br>£7.20<br><br>£14.40 |

## SCHEDULE 5 Regulation 3(6)

## FEES FOR THE CARRYING OUT OR MONITORING OF REMEDIAL WORK

| ***Remedial work*** | ***Fee*** |
|---|---|
| The carrying out or monitoring by an inspector of remedial work and associated activities (including travelling and office time) in connection with a controlled consignment— | |
| (a) up to and including the first hour; | £37 |
| (b) thereafter, for each additional 15 minutes or part thereof | £9.25 |

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

ISBN 978-0-348-20386-8

W201903071002 03/2019

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/497